PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 15/16 Ebrill 14/21 2022 50c.

## Rhifyn arbennig

Y mae hwn yn rhifyn estynedig o'r *Tyst* ar gyfer y pythefnos nesaf. Bydd y rhifyn dilynol, os Duw a'i myn, yn ymddangos ar ddydd Iau 28 Ebrill. Hoffem ddymuno Pasg llawen i bawb ohonoch wrth gofio am gariad Duw tuag atom a fynegwyd mor rhyfeddol yn aberth yr Iesu trosom ar y groes a'i atgyfodiad buddugoliaethus ar y trydydd dydd. Diolchwn i Dduw am y gobaith dihysbydd sydd gennym fel Cristnogion.

## Apêl Wcráin

Yn dilyn tystio'r lluniau ar y teledu o'r rhyfel erchyll yn Wcráin, pasiwyd yn ystod gwasanaeth yng nghapel Bethesda, Llanymawddwy ddechrau Mawrth i gynnal noson paned a chacen yn y Llew Coch ym Mawddwy. Diolch i ddylanwad Facebook ac ychydig o bosteri cafwyd noson lwyddiannus iawn ar 17 Mawrth gyda chefnogaeth dda o'r gymuned leol a nifer yn teithio o bellter i gefnogi'r achos.





Rhoddodd Berwyn a Ceris o'r Llew Coch y cwbl o'r paneidiau a'r cacennau (amrywiol a blasus) yn ddi-dâl a mawr yw ein diolch am hyn. Derbyniwyd gwobrau raffl di-ri a bu pawb yn hael iawn gyda'u rhoddion i'r blwch cyfraniadau. Diolch yn fawr i Mair Tomos Ifans am ein diddanu gyda'i thelyn a'i gwên – profiad newydd i rai oedd yn bresennol, oedd wedi rhyfeddu a'u swyno gyda'i thalent.

Roedd 'na dipyn o waith cyfri arian ar ddiwedd y noson a bu'r cyfraniadau'n dal i ddod i law am ddyddiau. Braf yw medru datgan i ni godi £1,365 at DEC Cymru a diolch diffuant i bob un gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

**Gwawr Ifans**

## 'Cerddwn ymlaen i'r yfory'

"Cerddwn ymlaen i'r yfory' – geiriau un o hoff emynau criw o aelodau ifancach capel Hope-Siloh sy'n aml yn cymryd rhan mewn gwasanaethau; nifer o'r criw hynny yn athrawon ysgol Sul yn y capel.

Bore Sul arferol yn y festri ... criw o blant yn cwtsio i weld cyflwyniad pwyntpwer ar sgrin fach cyfrifiadur un o athrawon yr ysgol Sul ac yna straffaglu i weld, heb sôn am glywed, clip fideo ar YouTube ... eto ar sgrin fach yr athro. Ydy hynny'n swnio'n gyfarwydd i chi? Profiad cyfarwydd i blant ein hysgol Sul ni yn y blynyddoedd diwethaf ... a phrofiad anos fyth mewn pandemig lle nad yw 'cwtsio' i'w groesawu! Athrawon yr ysgol Sul yn ymlafnio i geisio 'cerdded ymlaen i'r yfory' wrth foderneiddio sesiynau'r ysgol Sul a defnyddio adnoddau digidol ... ond heb yr 'esgidiau' addas i wneud hynny!



### Moderneiddio

Mae'r sawl ohonom sy'n athrawon yn ein gwaith o ddydd i ddydd, yn hen gyfarwydd â sgriniau cyffwrdd mawr yn ein hystafelloedd dosbarth – sgrin ryngweithiol sy'n rhoi'r cyfle i bawb weld a chlywed popeth ac sy'n agor y drysau i bob math o weithgareddau i gymell y disgyblion, heb sôn am yr iPads a chyfrifiaduron sydd wrth law i gyfoethogi profiadau ymhellach. Teimlad nifer o athrawon ysgol Sul y capel oedd ei bod hi'n bryd i ninnau symud gyda'r oes hefyd, yn enwedig o gofio mai dyna yw disgwyliadau plant a phobl ifanc ... yn wir, onid yw'n angenrheidiol i ysgolion Sul symud gyda'r oes er mwyn goroesi ... ac onid yw'n plant a'n hieuenctid yn haeddu hynny?

### Dyfodol digidol

Wel, dyna'r cefndir i benderfyniad y capel i brynu sgrin cyffwrdd 55 modfedd i festri'r capel, a hynny diolch i nawdd hael gan Westhill Endowment, Birmingham ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen. Sgrin sydd ar droli i'w symud yn slic o un lle i'r llall, lle gallwn ddangos cyflwyniadau yn fawr ac yn

*parhad ar dudalen 2*

# Colofn Cerdd a Mawl

## 'Byw i weld yr anweledig'

Wrth hiraethu am anwylyn mae'n arfer gennym ddweud, 'rwy'n gweld d'eisiau di.' Ces innau sgwrs yn ddiweddar ynglŷn â'r dyhead i weld delwedd Crist yn y meddwl a chael cryn ddifyrrwch yn ystyried pa mor allweddol yw gweld ei wedd drwy lygad y dychymyg. Parodd hynny imi dybied – a oes rhai pobl, yn fwy nag eraill, yn ei weld yn fwy manwl yn eu meddwl? Pan gaeaf fy llygaid mae gen i ddarlun clir a gwelaf liw a thonnau ei wallt, siâp ei drwyn a golwg ei lygaid tyner. Wrth gwrs mae'r delweddau sy'n gymaint rhan o'n traddodiad yn dylanwadu ar fy ngweld yn sicr ddigon, ond serch hynny fy nelwedd i ydyw a'm hadnabyddiaeth bersonol i ohono.



### Gwrthrychau

Mae nifer dros y canrifoedd wedi defnyddio darlun gweledol fel modd o fyfyrio mewn oedfa. Arfer cyffredin ymysg Catholigion yw hoelio sylw ar greiriau neu gerfluniau cysegredig; tra bod y Crynwyr, yn y pegwn arall, yn gyfan gwbl ddibynnol ar eu dychymyg a'r canol llonydd hwnnw sy'n gymaint rhan o'u haddoli. O'r Groeg y daw'r gair 'eicon' yn wreiddiol sy'n golygu 'delwedd' neu 'tebygrwydd', a'i brif bwrpas yw bod o gymorth defosiynol. Ceir ystyr symbolaidd i bob manylyn mewn eicon a gall gael ei baentio ar banel o bren, wedi'i naddu o garreg, neu wedi'i frodio ar gynfas.

### Eicon byw

Ym Methel Penarth rydym yn ffodus o gael tapestri hyfryd o'r Swper Olaf ar ganol y mur uwchben y bwrdd cymundeb. Mae'n lliwgar ac yn denu'r ffocws i ganol y llun a Christ yn ganolbwynt. Rwy'n hoff o hoelio fy sylw ar y darlun ac mae osgo onglog blith draphlith y disgyblion yn tanlinellu gosgeiddrwydd ffigwr Crist. Ynghanol gwydr y ffenestr hir uwchben y darlun mae ffurf croes. Rhai Suliau yn ôl glaniodd colomen ar y sil ffenestr wrth inni ganu 'Efengyl tangnefedd ehed dros y byd' ac arhosodd yn ei hunfan yno tra roeddem yn gweddïo am drigolion Wcráin. Cawsom eicon byw y bore hwnnw i ddenu ein llygaid!

### Llesmeiriol

Dywed Angharad Price yn ei hysgrif hyfryd o'i chyfrol *Ymbapuroli* mai ysu 'am weld yr anweledig a wna Ann Griffiths.' Yn ei hemynau, mae'r darluniau ysgrifenedig yn cyfleu'r paradocs mawr rhwng y dyheu am weld, y rhwystredigaeth wrth iddi ddiffygio o fethu gweld, a'r mewnwelediad godidog sy'n ei chodi i'r entrychion. Gwyddom y byddai Ann yn cael cyfnodau o lesmeirio llonydd – tybiaf mai gweld ei Christ yr oedd ar yr adegau hynny a'i bod yn cael ei sodro i'r fan. Mae ei heilun yn real iawn iddi a chaiff ei brofi'n angerddol drwy ei holl synhwyrau. Eto dywed Angharad Price i Ann gyweinio ei deunyddiau yn 'glytwaith o ddarluniau annisgwyl a llachar' ac mae'n annog pawb i weld prydferthwch y 'gweledigaethau *technicolor*' sydd yn ei hemynau.

### Rhin newydd

Do, rhoddodd Duw hefyd flas gweledol inni, ohono Ef ei hun ar ddelw dyn, ac mae cyfarfod i'w foli wrth wraidd calon ein cred. Ond sut y gallwn ni heddiw, mewn oes sydd wedi mynd dros ben llestri o weledol, hoelio ein sylw ar ei berson hardd mewn oedfa, a chael bendith a budd o hynny? Ac oes modd inni ymlonyddu mewn ffyrdd newydd a mentrus yn y cwrdd ar y Sul er mwyn ymdoddi'r meddwl â'r enaid?
Dyma rai syniadau ichi. Does dim yn newydd yma mewn gwirionedd, ond ei fod yn gyfle inni atgoffa ein hunain bod modd arbrofi gyda chyfryngau gweledol a cherddorol er lles yn ein haddoliad. Efallai y cawn brofi rhin newydd, drwy ras Duw, wrth inni adlewyrchu'n dawel.

- Gweddi i gyfeiliant cerddoriaeth neu ysbaid o fyfyrio i gyfeiliant piano. Awgrymir 'Prelude Rhif 1yn C Fwyaf' gan Bach sy'n weddol rwydd i'w chwarae ac sydd oddeutu dwy funud a hanner o hyd.
- Ffocysu ar ddelwedd o'r Groes wrth wrando ar emyn. Awgrymir 'Cof am y cyfiawn Iesu', rhif 500, *Caneuon Ffydd* ar y dôn 'Via Crucis'.
- Darllen cerdd i gyfeiliant cainc ar y delyn/piano/organ. Awgrymir cainc 'Llety'r Bugail' a cherdd Cynan 'Eirlysiau'.
- Creu gwaith celfyddydol i'w arddangos yn y capel drwy dorri papur gwyn, plaen i siâp arbennig (e.e. wy Pasg, seren, croes, blodyn, colomen) ac ysgrifennu enw er cof, neu hoff adnod neu weddi bersonol.
- Cyd-ddarllen Salm y Genedl, Jennie Eirian Davies, rhif 873 *Caneuon Ffydd*, gan ystyried gwlad Wcráin yn ogystal.

Mentrwch arni!

**Sian Meinir**

# 'Cerddwn ymlaen i'r yfory' – parhad

lliwgar, dangos clipiau fideo, chwarae gemau, annog rhyngweithio a hynny gydag iPad a chyfrifiadur sy'n eiddo i'r capel wrth law ... lle gallwn gynnig profiadau cyffrous i ddod â Christnogaeth yn fyw. Dyma ni wedi cymryd ein camau cyntaf o ran buddsoddiad digidol, ac mae camau breision i'w cymryd eto ar y gorwel. Gyda'r 'esgidiau' addas hyn, gobeithio y gallwn seinio clod a cherdded ymlaen i'r yfory.

**Meinir Jones**



# Y Parchg Gerwyn Jones

Un o'r pethau ddywedodd Gerwyn dros y blynyddoedd diwethaf oedd, 'Yr wyf wedi dweud ers blynyddoedd, pe bawn i'n dihuno un bore heb boen, byddwn i'n gwybod 'mod i wedi marw – heddiw does dim poen – felly peidiwch wylo drosof fi.'

### Dyddiau mebyd

Ganwyd Gerwyn yn 1940 yng Nghenarth, Castellnewydd Emlyn yn fab i Dorothy Jones. Pan oedd yn faban bychan fe symudasant i Hermon, Cynwil Elfed a mynychodd ysgol Nantcwmrhys. Yna pan oedd yn 9 mlwydd oed symudodd y teulu i Llanybïe a mynychodd ysgol Llanybïe a Rhydaman cyn symud i ysgol ramadeg Dyffryn Aman. Gadawodd yr ysgol pan nad oedd ond pedair ar ddeg blwydd oed ac aeth i weithio gyda dilledwr preifat (outfitter) cyn ymuno â Montague Burton Ltd Tailors yn 1956 yn Rhydaman. Yna fe symudodd i Gaerdydd yn 1958 ac fe weithiodd fel rheolwr sawl siop yn ne Cymru.

### Gweinidogaeth

Yn 1960 priododd â Gill Davies yng Ngwynfryn, Rhydaman ac fe anwyd Rhiannon. Yna aeth i dderbyn addysg bellach yn y Coleg Coffa, Abertawe rhwng 1969–73 gan ennill gradd Baglor mewn diwinyddiaeth. Cafodd ei ordeinio ym Methel, Llansamlet a Saron, Birchgrove yn 1973 cyn symud i gapel Alltwen yn 1980. Yna symudodd i eglwys Y Plough, Aberhonddu, Libanus a Chwmcamlais yn 1997. Ymddeolodd Gerwyn o'r weinidogaeth lawn amser yn 2005. Er hynny fe dderbyniodd alwad yn fuan wedyn i weinidogaethu yn Bethel Cynghordy, Bwlch y Rhiw, Myddfai, Capel y Groes, Cil-y-cwm, Salem Llanymddyfri a Seion, Myddfai, fel gweinidog rhan amser. Ymddeolodd am yr eildro yn 2017.

Dywedodd Gerwyn 'Mi oeddwn yn ffodus iawn fy mod wedi cael fy newis i wasanaethu ym mhob un o'r eglwysi hyn. Rwyf wedi mwynhau llawenydd mawr a bendithion lawer drwy gydol fy ngweinidogaeth. O ran nifer, Alltwen oedd y cyfnod mwyaf ffrwythlon, ond ym mhob un o'r eglwysi roedd Cristnogion ffyddlon ac mae nifer fawr wedi aros yn ffrindiau oes ac rwyf wedi trysori hynny.'




### Porth-cawl

Wedi ymddeol fe symudodd Gerwyn i fyw ym Mhorth-cawl ac fe fynychodd eglwys y Tabernacl ac yr oedd hyn yn 'goron ar bopeth' meddai. Roedd Gerwyn yn ei gweld fel braint fawr cael bod yn rhan o gymuned gynnes a chroesawgar. Er mawr dristwch bu farw Gill yn 2001 ac fe ailbriododd Gerwyn yn 2002 gyda Cathy Quarrell.

Dywedodd Gerwyn: 'Dwi wedi cael fy mendithio yn fawr gan bump menyw yn fy mywyd i. Fy ngwragedd Gill a Cathy, fy merch Rhiannon a fy wyresau Enfys Haf ac Eleri Mai. Mae pob un ohonynt wedi cyfoethogi fy mywyd ac rwyf wedi diolch i Dduw amdanynt pob dydd.'

*Derbyniwyd trwy law Dylan Rhys*

# YSTYRIED DIARDDEL EGLWYS AM GEFNOGI'R TRAIS YN WCRÁIN



Mae Arglwydd Rowan Williams, y Cymro sy'n gyn-Archesgob Caergaint, am ystyried diarddel Eglwys Uniongred Rwsia o Gyngor Eglwysi'r Byd oherwydd cefnogaeth y Patriarch Kirill ym Mocow i'r rhyfel yn Wcráin. Mae dros 350 o eglwysi, sydd â chyfanswm o 500 miliwn o aelodau, yn perthyn i'r Cyngor, gan gynnwys Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Dywedodd Kirill bod lluoedd arfog Rwsia yn gweithredu yn unol â'r efengyl a dysgeidiaeth Cristnogol. Mewn pregeth yn eglwys gadeiriol filwrol newydd Moscow, fe wnaeth y Patriarch annog pobl Rwsia i weddïo dros lwyddiant eu lluoedd arfog yn Wcráin.



### Treisio a lladd

Ond wrth i filwyr Rwsia adael ardaloedd a feddianwyd ganddynt ar ddechrau'r rhyfel, daeth straeon a lluniau erchyll i'r golwg am gannoedd o bobl ddiniwed gafodd eu treisio a'u lladd gan y milwyr, gyda chyrff yn cael eu gadael ar y stryd mewn trefi fel Bucha ac Irpin i'r gogledd o Kyiv.

'Rhaid dweud y drefn,' meddai Arglwydd Williams. 'Pan mae eglwys yn agored yn cefnogi rhyfel ymosodol, ac yn methu condemnio ymddygiad hollol amlwg ac anfoesol (y lluoedd arfog) yna mae hawl gan eglwysi eraill i ofyn cwestiynau a'i herio. Nid yw'n dderbyniol i ddefnyddio terminoleg Gristnogol i gyfiawnhau trais amlwg yn erbyn cymydog sy'n genedl Gristnogol.' Os nad yw Eglwys Uniongred Rwsia'n newid ei hagwedd, yna rhaid edrych ar ei haelodaeth o Gyngor Eglwysi'r Byd, meddai. 'Rhaid iddynt ddatgan bod lladd bobl ddiniwed mewn rhyfel yn rhywbeth sydd i'w gondemnio'n ddiamod gan bob traddodiad Cristnogol.'

### Atebol i Iesu Grist

Fe wnaeth Arglwydd Williams, sy'n siarad Rwseg, atgoffa'r Patriarch Kirill ei fod yn atebol i Iesu Grist am y ffaith bod Wcraniaid Uniongred yn cael eu lladd gan aelodau eraill o'i braidd. Dylai'r Patriarch alw am gadoediad o leia.

Mae Cyngor Eglwysi'r Byd wedi condemnio ymosodiad Rwsia ar Wcráin, ac wedi cadarnhau hawl y genedl honno i amddiffyn ei hun. Mae'r Cyngor hefyd wedi galw am gadoediad a thrafodaethau estyngedig i geisio dod â'r rhyfel i ben.

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 14/21 2022 RHIF 59/60

# Credu yng Ngrym yr Atgyfodiad

Yn awr, os pregethir Crist ei fod wedi ei gyfodi oddi wrth y meirw, sut y mae rhai yn eich plith yn dweud nad oes atgyfodiad y meirw? (1 Corinthiaid 15:12 BCND)

Os ydyn ni'n cyhoeddi fod y Meseia wedi'i godi yn ôl yn fyw, sut mae rhai pobl yn gallu dweud fod y rhai sydd wedi marw ddim yn mynd i atgyfodi? (1 Corinthiaid 15:12 Beibl.net)

Dyma adnod o bennod fawr Paul ar yr atgyfodiad. Dwi am i ni edrych ar dri phwynt: 1. Grym yr atgyfodiad; 2. Amau'r atgyfodiad; 3. Cadarnhad o'r atgyfodiad.

### 1. Grym yr atgyfodiad

Cwestiwn y gwragedd, Mair Magdalen a Mair mam Iago, yn ôl Marc, oedd: 'Pwy a dreigla'r maen i ffwrdd oddi wrth ddrws y bedd i ni?' Neu, pwy sy'n mynd i rolio'r garreg oddi ar y bedd i ni gael mynd i mewn i eneinio'r corff?

Mae'r Efengylau'n amrywio ynglŷn â phwy sy'n cael eu henwi, ond yn hollol gytûn mai'r gwragedd oedd wrth y bedd gyntaf. Tridiau ynghynt, mae'r gwragedd wedi cael golwg ar y creulondeb a wynebodd Iesu, yr holl boen a ddioddefodd, a'r holl wawdio a gwatwar a wynebodd. Eneinio'r corff oedd y weithred a'r cyfle olaf i ddangos parch tuag at un a fu farw mor ddianrhydedd. Eu dyletswydd hwy fel y teulu a'r ffrindiau agosaf oedd dod yn ystod y dyddiau cyntaf i eneinio'r corff â pheraroglau, a hynny'n syml iawn i helpu gyda drewdod y corff yn pydru. Roedd hi'n rhy hwyr ar y nos Wener i wneud hynny, ac yna roedd hi'n Sabath ac ni ellid gwneud y gwaith bryd hynny. Felly, bore'r trydydd dydd, ar doriad gwawr oedd y cyfle cyntaf.

Cwestiwn ymarferol y mae'r gwragedd yn ei ofyn, yn ôl Marc. Fe wyddent nad oedd posib iddyn nhw symud y garreg eu hunain.

Yn syth wedi i Pedr adnabod Iesu fel yr un yr oedd Israel wedi bod yn edrych ymlaen i'w weld fel Eneiniog Duw, y Meseia, mae Marc yn dweud hyn: 'Dechreuodd esbonio iddyn nhw fod rhaid iddo fe, Mab y Dyn,



ddioddef yn ofnadwy. Byddai'r arweinwyr Iddewig, y prif offeiriaid a'r arbenigwyr yn y Gyfraith yn ei wrthod. Byddai'n cael ei ladd, ond yna'n dod yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn.' (Marc 8:31)

Os felly, a bod y disgyblion, y gwragedd a holl ddilynwyr Iesu yn gwybod y byddai'n dod yn ôl yn fyw ar y trydydd dydd, pam fod y gwragedd yn gorfod poeni pwy oedd yn mynd i symud y garreg oddi wrth y bedd? Er eu bod yn gwybod ei fod am gyfodi, doedden nhw ddim yn gwybod chwaith! Doedden nhw ddim wedi profi hyn o'r blaen, ac felly ddim yn ei ddisgwyl. Mae'r awdur a'r diwinydd W. E. Sangster yn dweud: 'Ni threiglwyd y maen er mwyn i Iesu gael ei gyfodi, ond er mwyn i ni gael gweld bod y bedd yn wag'. Mae'r ffaith fod y gwragedd yn gofyn y cwestiwn yn Efengyl Marc yn dangos i ni eu bod un ai ddim yn credu fod Iesu am atgyfodi neu, yn fwy tebygol, fod eu galar a'u sioc wedi achosi iddynt anghofio am ei addewid, nid dim ond iddyn nhw, ond i'r byd i gyd.

Mae'r angel yn ymddangos yn y pedair efengyl ac yn pwysleisio tystiolaeth yr atgyfodiad: "Peidiwch dychryn," meddai wrthyn nhw. "Dych chi'n edrych am Iesu o Nasareth gafodd ei groeshoelio. Mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dydy e ddim yma. Edrychwch, dyma lle cafodd ei gorff ei roi i orwedd. (Marc 16:6)

Do, mi fuodd Iesu farw ar y groes ar y dydd Gwener, ond rŵan, a hithau'n ddydd Sul, mae wedi dod yn ôl yn fyw. Tydy o ddim yn y bedd ddim mwy, mae'r bedd yn wag! Ond os oes rhywun yn dweud wrthych am 'beidio dychryn', rydych chi siŵr o ddychryn! Roedd y gwragedd yn crynu dan arswyd.

Rydym ni i gyd wedi wynebu ofnau dros y ddwy flynedd ddiwethaf yma, ac fel mamau a gwragedd, efallai, wedi cael mwy na'n siâr o boeni! Dwi'n gallu poeni am bopeth – y plant, y ci! Dwi'n poeni weithiau fy mod i'n poeni gormod! Mi fasen ni'n gallu treulio oriau, diwrnodau, yn meddwl am yr holl feini tramgwydd sydd yn ein bywydau ni. Ond trugaredd Duw tuag atom sy'n treiglo'r maen. Rydyn ni'n cael ein bendithio wrth dderbyn trugaredd yr Arglwydd ond hefyd pan fyddwn ni'n dangos trugaredd at eraill ac yn rhannu eu pryderon a'u poenau hwythau.

Yn ystod 2020–21, fe ges i gyfle i gyfarfod â'r Eglwys yn fyd-eang i raddau cymaint mwy nag o'r blaen, er na wnes i orfod teithio i'r un ohonynt. Wrth fod yn rhan o'r cynllun 'Just Scripture' gyda Chymorth Cristnogol, cefais astudio Gair Duw mewn cyd-destunau gwahanol a chlywed am feichiau cyd-Gristnogion yn Kenya, De Affrica ac India. Mae'r ymwneud â'r eglwys fyd-eang yn ei gwahanol ofidiau a pharthau amser wedi dangos i mi fod yr Arglwydd yn fyw, yn sefyll ynghanol ei bobl ac yn rhannu grym ei atgyfodiad gyda ni i gyd, lle bynnag yr ydym, beth bynnag fo'n hamgylchiadau a pha amser bynnag yw hi arnom ni: yn Singapore, Japan, Jamaica, Taiwan, India. Cyfarfod â Lal Ramthanga, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Myanmar, a sgwrsio dros WhatsApp efo fo, lle mae'r fyddin yno ar y stryd y tu allan yn bygwth. Wrth glywed am ffoaduriaid yn cyrraedd Mizoram, y dalaith agosaf yn yr India, ac yn cael eu croesawu efo breichiau agored gan y Cristnogion yno, rydym yn cael

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Credu yng Ngrym yr Atgyfodiad*

*(parhad o dudalen 1)*

rhannu yng ngrym yr atgyfodiad sydd yn drech na dim all ddod i'n herbyn.

### 2. Amau'r atgyfodiad

Erbyn hyn mae hi'n nos Sul, ac mae Iesu wedi ymddangos i'w un disgybl ar ddeg wrth bryd bwyd. Mae o'n edliw iddynt eu hanghrediniaeth a'u styfnigrwydd, am iddyn nhw beidio dal gafael yng ngobaith yr atgyfodiad. Mae cofnod Luc yn hyfryd ac yn fanwl iawn. Yno, mae'r Iesu'n dangos ei ddwylo a'i draed ac yn dweud wrthynt: 'myfi yw, myfi fy hun' (24:39). Dros yr wythnosau nesaf mae Iesu'n ymddangos i tua phum cant o bobl, yn ôl Paul yn 1 Corinthiaid 15.

Yn strategol, doedd 'na ddim cam gwaeth i'w gymryd na dewis gwragedd fel y tystion cyntaf i'r atgyfodiad. Yn y llysoedd Iddewig mi fasen nhw wedi cael eu gwahardd yn llwyr rhag rhoi eu tystiolaeth. Mae yna sawl tystiolaeth amrywiol i'w gweld, a gonestrwydd yr arswyd ac ofn yn eu calonnau. Ond mae'r ofn yn cael ei chwalu a'i leddfu o fod yn ei gwmni. Pan fydda innau'n hel meddyliau ac yn troi a throsi yn y nos, mi fydda i'n troi at Huw y gŵr ac yn dweud fy mod i'n poeni, ac mae cael ei ymateb tyner yn lleddfu'r ofn.

Mae hanes yr atgyfodiad yn Efengyl Ioan yn sôn am Thomas:

"Nes i mi gael gweld ôl yr hoelion yn ei arddyrnau, a rhoi fy mys yn y briwiau hynny a rhoi fy llaw i mewn yn ei ochr, wna i byth gredu'r peth!"

Wythnos yn ddiweddarach roedd y disgyblion yn y tŷ eto, a'r tro hwn roedd Tomos yno gyda nhw. Er bod y drysau wedi'u cloi, daeth Iesu i mewn a sefyll yn y canol a dweud, "Shalôm!" Trodd at Tomos a dweud, "Edrych ar fy arddyrnau; rho dy fys i mewn ynddyn nhw. Estyn dy law i'w rhoi yn fy ochr i. Stopia amau! Creda!" A dyma Tomos yn dweud, "Fy Arglwydd a'm Duw!" (Ioan 20:25–8)

Profi cwmni Iesu sy'n lleddfu ein hofnau a'n hanghrediniaeth ninnau hefyd. Ar fore'r Pasg, ychydig wythnosau cyn ei farwolaeth, mae William Sangster, ac yntau'n wynebu gwaeledd hir a chreulon, yn llwyddo i ysgrifennu: "Mor ofnadwy ydy deffro ar y Pasg a bod heb lais i weiddi, 'Mae wedi codi!' Ond gwaeth o lawer fyddai cael llais a ddim eisiau gweiddi."

### 3. Cadarnhad o'r atgyfodiad

Fe gredaf fod y cadarnhad o'r atgyfodiad yn ei gomisiwn mawr: "Ewch i gyhoeddi'r newyddion da i bawb drwy'r byd i gyd." Rhannwch am y gobaith; rhannwch y cysur sydd i'w gael o dderbyn fod Iesu wedi atgyfodi, wedi gwneud pob dim yn iawn ac yn newydd. Rydyn ni'n cael ein comisiynu yn natur wasanaethgar yr Arglwydd, yr un natur ag y clywsom sôn amdani ddeuddydd ynghynt ac y mae Eseia yn sôn amdani ym mhenod 53:

> Ar ôl y dioddef i gyd bydd yn gweld beth wnaeth,
> a bydd yn gwbl fodlon.
> Bydd fy ngwas cyfiawn yn gwneud llawer o bobl yn gyfiawn,
> ac yn cario baich eu beiau ar ei ysgwyddau.

Roedd y sioc oedd i ddilyn wedi'r atgyfodiad yn cychwyn o Jerwsalem ac yn lledu fel feirws yn cael ei basio o berson i berson. Hanner can niwrnod yn ddiweddarach yn Jerwsalem y mae 3,000 o bobl o bob cenedl dan y nef yn cael eu llenwi â'r Ysbryd Glân ac mae'r Eglwys yn cael ei geni.

Mae nerth yr atgyfodiad yn eiddo i ni, ac fel eglwys Iesu Grist yma yng Nghymru a thros y byd i gyd, rydyn ni yma o hyd; rydyn ni'n tyfu, rydyn ni'n siarad ac yn gweithredu yn erbyn anghyfiawnder. Rydyn ni'n cynnig gobaith i'r diobaith ac rydyn ni'n cynnig cyflwyno cyfaill na fu ei debyg, un sy'n gyfaill i gasglwyr trethi, puteiniaid a phechaduriaid – un sy'n gas ganddo ein hagwedd feirniadol ni at eraill, a'r un sy'n ein caru yn union fel rydym ni.

Mae adnod olaf Efengyl Marc yn dweud bod y comisiwn mawr yn cadarnhau'r atgyfodiad: 'O hynny ymlaen aeth y disgyblion allan i bregethu ym mhobman. Roedd yr Arglwydd yn gweithio gyda nhw, ac yn cadarnhau fod y neges yn wir drwy'r arwyddion gwyrthiol oedd yn digwydd yr un pryd.' Roedd yr Arglwydd Iesu yn mynd gyda nhw i gadarnhau bod ei neges ef ei hun trwyddyn nhw yn wir. Mae'n gwneud y cyfan yn sefydlog ac yn gadarn. Ac os mai gwaith y disgyblion cyntaf a'r Eglwys Fore oedd cadarnhau'r Atgyfodiad, dyna ydy'n gwaith ninnau heddiw.

Felly, be' sydd rhaid i fi ei wneud? Derbyn fod Iesu yn ein gwahodd ninnau hefyd i gredu ynddo, ac i rannu'r newyddion da. Ac wrth eu rhannu, maen nhw'n cael eu cadarnhau: 'Ond, y gwir ydy bod y Meseia wedi'i godi yn ôl yn fyw! Mae e fel y ffrwyth cyntaf i ymddangos adeg y cynhaeaf – fe ydy'r cyntaf o lawer sy'n mynd i gael eu codi.' (1 Corinthiaid 15:20) Mae'r maen wedi ei dreiglo; mae hi'n Basg: 'Oherwydd y mae Crist, ein Pasg ni, wedi ei aberthu.' (1 Corinthiaid 5:7)

Dwedodd Iesu wrth Martha, chwaer Lasarus, "Fi ydy'r atgyfodiad a'r bywyd. Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn dod yn fyw, er iddyn nhw farw; a bydd y rhai sy'n fyw ac yn credu ynof fi ddim yn marw go iawn. Wyt ti'n credu hyn?" (Ioan 11:25)

Dwi'n gweddïo y byddwch yn rhyfeddu at rym yr atgyfodiad eleni fel y rhyfeddodd Mair Magdalen, Mair mam Iago, y gwragedd, y disgyblion a'r pum cant a welodd Iesu yn dilyn yr atgyfodiad. Dw i'n gweddïo hefyd fod y rhai ohonoch sydd wedi profi unigedd ac amheuaeth yn gallu derbyn cadarnhad yr atgyfodiad fel y gwnaeth Thomas, ac yn gallu dweud yn hyderus: 'Ti yw fy Arglwydd a'm Duw'.

*Parch. Nan Wyn Powell-Davies*
*(Addasiad o anerchiad a draddodwyd yng Ngŵyl Rithiol Llanw '21 o Gapel Caersalem, Caernarfon)*




### Llanw 22 – Aberystwyth 18–19 Ebrill

Mae manylion llawn Gŵyl Llanw 2022 wedi cael eu cyhoeddi ar y wefan. Ewch yno i weld y manylion.
Tocynnau Llanw 2022 (EventBrite)
Bydd croeso mawr yn disgwyl bawb o bob oed yn Llanw, Aberystwyth '22!

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol ebostiwch Angharad Clwyd ar ymholiadau@llanw.org

# Mae'n wanwyn ... ond mae'r gaeaf yn dod

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ymateb i ddatganiad y Canghellor yn ei gyllideb ar gyfer y gwanwyn, a'r cynnydd mewn pris ynni a ddaeth i rym ar Ebrill 1af, gan gloriannu effaith hynny ar aelwydydd tlotaf ein gwlad, a sut gall yr eglwys ymateb i'r pwysau cynyddol ar deuluoedd Cymru.

Wrth gyhoeddi ei Ddatganiad Cyllidol ar gyfer y gwanwyn ddiwedd Mawrth, dywedodd y Canghellor, Rishi Sunak, ei fod am 'geisio lleddfu'r costau cynyddol ar aelwydydd y wlad', ac o'r herwydd y byddai'r trothwy yn codi ar gyfer y swm y mae pobl yn ei ennill cyn talu Yswiriant Gwladol ac y byddai'r dreth ar danwydd yn cael ei thorri 5c y litr am 12 mis. Mae hyn mewn ymateb i'r gofid cynyddol gan bobl am y cynnydd sylweddol mewn costau byw yn sgil y ffaith fod pris ynni, tanwydd a bwyd yn codi ar gyfradd lawer iawn uwch na'r cynnydd mewn cyflogau. Bu cryn feirniadaeth gan y gwrthbleidiau a sylwebyddion gwleidyddol nad oedd hynny'n mynd yn ddigon pell, yn wyneb y cynnydd digynsail mewn prisiau tanwydd ac ynni ar hyn o bryd. Mae nifer o elusennau dyled a thlodi hefyd wedi mynegi consýrn gwirioneddol y gall miliynau o bobl fynd i drafferthion, ac y bydd y mwyaf bregus mewn cymdeithas yn dioddef. Mae llawer eisoes wedi darogan y bydd yn rhaid iddynt ddewis rhwng bwydo'r teulu neu wresogi'r aelwyd, ac mai plant a'r henoed fydd yn dioddef fwyaf.

Ar Ebrill 1af eleni gwelwyd cynnydd sylweddol mewn prisiau ynni – rhwng 40% a 55%, gyda'r posibilrwydd cryf o gynnydd cyffelyb eto yn yr hydref. Mae hyn yn ychwanegol at sawl cynnydd arall dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda phrisiau trydan, nwy ac olew wedi cynyddu 60–80% yn barod. Mae pris tanwydd car hefyd wedi codi 45% yn y 12 mis diwethaf, a'r bygythiad o brinder olew oherwydd y rhyfel yn Wcráin yn dwysáu'r broblem honno. Gyda chostau cwmnïau sy'n cynhyrchu nwyddau hefyd yn codi, fe welwyd cynnydd uwch na chwyddiant mewn prisiau bwyd ac offer i'r cartref. Ac er bod chwyddiant wedi codi'n sylweddol (6.2% ym Mawrth 2022), nid yw cyflogau yn gyffredinol wedi dilyn hynny (cyfartaledd y cynnydd yn 2022 yn 2.4%), ac felly mae'r pwysau ar aelwydydd yn heriol i lawer ar hyn o bryd.

Daeth rhybudd eisoes gan Dr Steffan Evans, pennaeth polisi Sefydliad Bevan, a ddywedodd, 'Mae'r cynnydd mewn chwyddiant i'r lefel uchaf ers 40 mlynedd yn debygol o arwain at y cwymp mwyaf mewn safonau byw ers cyfnod diwedd yr Ail Ryfel Byd. Y cyfuniad o'r costau yma i gyd yn cynyddu sy'n rhoi pwysau ar deuluoedd. Rydyn ni'n amau y bydd yna gynnydd yn nifer y bobol fydd yn gorfod lleihau eu defnydd o'r eitemau hanfodol. Ond mae yna ofid hefyd fod pobl yn mynd i ddyled efo rhai o'r costau uwch yma, fydd yn rhoi pwysau pellach ar deuluoedd adeg yr hydref nesa, wrth gofio y bydd costau'n cynyddu'n fwy eto bryd hynny.'

Ydy, mae'r gwanwyn ar ddod, a bydd llai o angen am wres ac ynni, gobeithio, ond fe ddaw'r gaeaf a'i dywydd garw eto, gyda chynnydd sylweddol arall yn cael ei ddarogan bryd hynny, all fod yn heriol i filiynau o aelwydydd. Mae heriau hefyd yn wynebu'r sector amaeth a chefn gwlad yn sgil y codiadau hyn. Yn ôl Aled Jones o NFU Cymru, 'Mae costau gwrtaith wedi dyblu mewn blwyddyn a phris bwyd anifeiliaid wedi cynyddu 60%, tra mae'r digwyddiadau yn Wcráin bellach yn cyfyngu ar y cyflenwad o gynhwysion crai. Mae'r ansicrwydd yn cael effaith arnom ni i gyd, ac rydym yn ymwybodol fod rhai ffermwyr yn brwydro i dalu'r biliau.'

### Ein hymateb ni

Fel Cristnogion, mae galwad cryf arnom i sefyll gyda'r bregus a'r gwan, ac mae gennym draddodiad cryf o wneud hynny. Mewn cyfnodau o galedi, gwelwn gymunedau'n closio at ei gilydd, ac yn aml mae'r eglwys fel 'hyb' yn y canol – yn cynnal banciau bwyd, yn cludo prydau bwyd i aelwydydd, ac yn cynnig cefnogaeth ymarferol ar gyllidebu a rheoli dyled. Mae'r eglwys hefyd yn llais cydwybod sy'n gallu herio llywodraethau i greu gwell cymdeithas ar gyfer pawb. Gall pob un ohonom wneud gwahaniaeth. Gallwn i gyd ymdrechu i fod yn gymdogion da – gan geisio bod yn effro i sefyllfaoedd o dlodi yn ein cymudedau. Yn aml, bydd yr oedrannus yn ceisio byw heb wres neu golli prydau bwyd, a phlant yn dioddef oherwydd diffyg maeth a dillad addas. Mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i fod yn effro i sefyllfa ein cymdogion yn lleol, a gall gweithred gudd o garedigrwydd wneud gwahaniaeth mawr yn aml.

Mae ambell eglwys wedi mentro agor drws y festri yn ystod y dydd, er mwyn cynnig lle cynnes, paned a chawl maethlon, ac osgoi cael pobl mewn unigrwydd ac oerfel yn eu cartrefi. Gallwn hefyd lobïo ein Haelod Seneddol lleol a'r Aelod o Senedd Cymru i frwydro dros gynhaliaeth ddigonol i'r rhai sy'n brwydro gyda thlodi, gan roi pwysau i godi gwerth credyd teuluol a buddiannau angenrheidiol. Gallwn gyfrannu at fanciau bwyd drwy ollwng nwyddau wrth siopa yn yr archfarchnad neu gyfrannu i elusen fel Shelter, sy'n cynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n colli eu cartrefi. Mae'r elusen yn rhagrybuddio y gall miloedd golli eu cartrefi yn y chwe mis nesaf wrth i bobl fethu talu rhenti a biliau gwres, gan roi mwy o bwysau ar yr elusen bwysig hon. Ewch i www.sheltercymru.org.uk am fwy o wybodaeth. Os oes gennym dai capeli ar osod, mae llawer y gellir ei wneud i ofalu bod y cartref hwnnw mor glyd ac ynni-effeithlon ag y gall fod, a chofiwch y gall tenantiaid yn aml hawlio grantiau i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi yn rhad ac am ddim.

Gyda'r cynnydd mewn costau, mae disgwyl y bydd llawer yn mynd i ddyled dros y misoedd nesaf. Elusen flaengar sy'n arwain ar reoli dyled yw CAP (Christians Against Poverty), ac maent yno i gynnig cefnogaeth ac arweiniad. Mae llawer o wybodaeth a chyngor ar gael ar eu gwefan: www.capuk.org

Un cynllun arbennig dan nawdd CAP yw Hope Pantry, ac yn ddiweddar ymwelodd Gethin Rhys o Cytûn â'r prosiect ym Merthyr Tudful, sy'n rhan o gynllun Eich Pantri Lleol. Mae drws disylw ar ymyl capel trawiadol Hope yng nghanol Merthyr yn arwain at y siop groser leol. Ond nid siop gyffredin mohoni o gwbl. Mae Hope Pantry yn cynnig gostyngiadau hael iawn i aelodau'r cynllun, â'r stoc yn y siop yn cael ei roi gan elusen Fareshare. Yn ychwanegol at hyn, gall aelodau godi ffrwythau, llysiau a bara ffres sydd angen eu defnyddio'n fuan yn rhad ac am ddim. Mae'r Pantri felly'n gwneud cyfraniad mawr at fynd i'r afael â gwastraff

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

*Mae'n wanwyn ... ond mae'r gaeaf yn dod*
*(parhad o dudalen 1)*

bwyd a'i gost amgylcheddol yn ogystal â threchu tlodi. Ceir mwy o fanylion am y cynllun ym mwletin Cytûn drwy ymweld â'r wefan: www.cytun.co.uk.

Bydd llawer o eglwysi yn gysylltiedig â banciau bwyd a phrosiectau sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol i bobl mewn tlodi. Mae'r Trussell Trust, sy'n rhedeg llawer o'r banciau bwyd, newydd ddechrau ymgyrch i geisio dileu'r angen am fanciau bwyd. Cyhoeddwyd adroddiad ganddynt yn dwyn y teitl 'State of Hunger', sy'n gosod her i geisio dileu tlodi bwyd yn ein gwlad. Mae'r adroddiad yn datgelu'r tlodi eithafol a wynebir gan bobl mewn banciau bwyd, gyda dim ond £248 y mis ar gyfartaledd i geisio byw. Mae angen i'r arian hwnnw dalu am gostau ynni a dŵr, treth y cyngor, bwyd a hanfodion eraill. Byrdwn yr adroddiad yw fod hynny'n annerbyniol, a'i bod yn bryd newid – a dim ond wrth i ni godi ein lleisiau gyda'n gilydd i alw am roi terfyn ar yr angen am fanciau bwyd y bydd hynny'n bosibl.




Mewn datganiad, meddant, 'Mae ein hymchwil yn dangos bod angen i un o bob chwech o bobl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ymweld â banc bwyd o leiaf unwaith y mis, ac mae bron i 2 filiwn o bobl yn mynd heb fwyd ar hyn o bryd. Dyma wir effaith y cynnydd ym mhris bwyd i bobl ar yr incwm isaf – pobl sydd eisoes yn wynebu penderfyniadau amhosibl fel gwresogi neu fwyta, gyda llawer yn gorfod ysgwyddo dyled dim ond i oroesi.

'Yn Natganiad y Gwanwyn, mae'r Canghellor wedi gwrthod galwadau i gefnogi pobl sydd eisoes yn wynebu penderfyniadau amhosibl. Nid yw cadw budd-daliadau ar gyfradd mor beryglus o isel yn rhoi unrhyw sicrwydd i bobl sy'n cael trafferth i fforddio'r hanfodion, a bydd hyn yn gorfodi llawer mwy o bobl i droi at fanciau bwyd. Mae angen gweithredu ar unwaith i gryfhau ein system nawdd cymdeithasol.' Ewch i www.trusselltrust.org i gael mwy o wybodaeth.

Mae'r elusen Splice yn gweithio gyda theuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Maent yn poeni fod chwyddiant yn gorfodi teuluoedd i wneud dewisiadau amhosib. Meddai'r cydlynydd Tracey Morgan, 'Mae prisiau'n cynyddu, ac mae ein teuluoedd yn gweld hynny. Hyd yn oed y teuluoedd sy'n gweithio. Maen nhw'n gorfod gwneud y dewis – p'un a ydyn nhw'n cynhesu'r tŷ neu'n bwydo eu plant.'

### Tlodi Digidol

Yn ychwanegol at dlodi bwyd a thanwydd, cyfeirir hefyd at broblem gynyddol tlodi 'digidol', neu dlodi drwy ddiffyg cyswllt â'r we. Yn ddiweddar, bûm mewn cyfarfod rhithiol ar ran Cytûn, o dan nawdd Llywodraeth Cymru, yn trafod problem argyfwng tlodi digidol. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Jane Hutt AS, ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio datblygu strategaeth i ofalu bod *pob cartref* yn gallu cael mynediad i'r we, er mwyn rhoi cyfleoedd cyfartal i bawb. Mewn oes pan mai dim ond ar y we y gellir gwneud cymaint o bethau, mae methu cael mynediad ato'n dod â'i siâr o heriau ac anawsterau. Mae llawer o gartrefi heb fodd o dalu am gysylltiad â'r we, a nifer na fedrant fforddio gliniaduron a chyfrifiadur cyflym.

Cafwyd adroddiadau am blant yn methu yn eu haddysg oherwydd nad oedd cyfrifiadur ar yr aelwyd, neu efallai ddim ond un cyfrifiadur rhwng mam a dad a phedwar o blant – a phawb yn gorfod cwffio am amser i'w ddefnyddio. Bellach, mae gwaith cartref i blant yn dibynnu ar ymchwilio ar y we, a chlywyd am blant yn gorfod gwneud eu gwaith ar ffôn symudol araf, a hynny yn ei dro yn amharu ar eu haddysg. Ac mewn byd lle mae plant yn cymdeithasu â'i gilydd drwy apiau fel Instagram mae'r rhai nad ydynt yn berchen ar ffonau clyfar yn cael eu heithrio o'r cylch ffrindiau hwnnw.

Yn yr un modd, i oedolion, mae'r gallu i brynu ar y we er mwyn cael y fargen orau, neu dalu biliau drwy ddebyd uniongyrchol er mwyn cael y fargen orau, yn heriol i gynifer. O'r herwydd, mae'r rhai tlotaf mewn cymdeithas yn aml yn gorfod talu prisiau uwch, yn methu cofrestru ar gyfer buddiannau a chefnogaeth sydd i'w cael ar y we. Gobaith y Llywodraeth yw creu partneriaethau i roi cyfle a mynediad i'r we i gynifer â phosib. Bydd rhai eglwysi'n rhedeg clybiau gwaith cartref ar ôl ysgol, lle mae plant yn cael diod a bisged, a chyfle i ddefnyddio gliniadur i wneud eu gwaith cartref. Mewn cyfnod lle mae llawer o gapeli wedi gosod y we ar gyfer Zoom, tybed oes 'na gyfle yma i fod yn genhadol ac ymestynnol? Yn aml iawn, mae modd cael gliniaduron am ddim i ddiben cymdeithasol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, gobeithiwn am wanwyn tyner, am ddiwedd ar ryfel yn Wcráin, am lai o bwysau a defnydd ar ynni ffosil, ac y gwelwn yr argyfwng tanwydd ac ynni yn lliniaru. Ond y realiti yw y daw'r gaeaf yn ei dymor, ac mai cynyddu fydd y prisiau, ac mai ymdopi a delio â phrisiau uwch fydd raid, gan geisio bod mor ofalus a darbodus ag y medrwn. Bydd hyn hefyd yn helpu gyda'r argyfwng newid hinsawdd yn y pen draw.

Rhown y gair olaf i Paul, a'i anogaeth i'r Cristnogion yng Ngalatia: 'Helpwch eich gilydd pan mae pethau'n galed – dyna mae "cyfraith" y Meseia yn ei ofyn. Dylai pawb yn syml wneud beth allan nhw.'

Galatiaid 6: 2,4, beibl.net

**S4C**

*Oedfa Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Bore Sul y Pasg, 17 Ebrill, am 12.00yp**
Ymunwch â ni wrth i ni nodi'r Pasg mewn gwasanaeth dan ofal y Parchedig Gwyn Elfyn.

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul y Pasg, 17 Ebrill am 7:00yh (ailddarlledir y Sul canlynol am 11:30yb).**
Daw'r rhaglen heddiw o Fangor, ac i ddathlu'r Pasg cawn gydganu rhai o'n hoff emynau o'r Gadeirlan dan arweiniad Cefin Roberts, mwynhau perfformiadau cerddorol gan Aled Jones, Côr y Gadeirlan, Gwen Elin ac eraill. Bydd Nia yn cael cwmni Archesgob newydd Cymru, y Parchedicaf Andy John.

**BBC radio cymru**

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul y Pasg, 17 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**
Cyfres ar amrywiol themâu gydag R. Alun Evans. Emynau'r Pasg fydd dan sylw ganddo heddiw.

*Oedfaon y Pasg ar Radio Cymru*
**Gwener y Groglith, 15 Ebrill, am 11.30yb**
Oedfa sgwrs gyda'r bardd Gwyneth Lewis, Caerdydd.


**Sul y Pasg, 17 Ebrill am 12.00yp**
Gwasanaeth dan ofal Andy John, Archesgob yr Eglwys yng Nghymru.

# Gwladgarwch a chenedlaetholdeb – cip ar gynnwys rhifyn Ebrill o'r *Traethodydd*

Thema amlwg yn y rhifyn cyfredol o'r *Traethodydd*, cylchgrawn hynaf Cymru, yw gwladgarwch a chenedlaetholdeb. Anrhydedd yw cael cyhoeddi darlith gan y diweddar Meredydd Evans ar un o ffigyrau cyhoeddus pwysig yr ugeinfed ganrif, sef yr Athro J. R. Jones. Ef yn anad neb a roes sylfaen ddeallusol i ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith ym merw'r 1960au, ac yn yr ysgrif hon mae un o ffigyrau blaenaf mudiad yr iaith ar ddiwedd y ganrif, sef ei gyd-athronydd, y Dr Meredydd Evans, yn tafoli syniadaeth JR ynghylch ystyr cenedlaetholdeb. Trwy law'r Athro Richard Wyn Jones, Cyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru, y cafwyd y ddarlith, a draddodwyd yn wreiddiol i fyfyrwyr gwleidyddiaeth Prifysgol Aberystwyth yng nghanol y 1990au, a Richard hefyd sy'n ei chyd-destunoli ac yn esbonio'i gwerth. Gwych o beth yw clywed llais Merêd unwaith eto, yn trafod â'i ddisgleirdeb arferol bwnc a oedd yn agos iawn at ei galon.

Athronydd arall o Gymro yw'r Athro John Heywood Thomas ac yn ei ysgrif yntau – a gyrhaeddodd yn gwbl annibynnol ar ysgrif Merêd – mae'n trafod ystyr gwladgarwch, a hynny ar sail ei hir brofiad o fod yn alltud o'i wlad. Gan dynnu oddi ar waith Raymond Williams a meddylwyr eraill, mae'n myfyrio ar arwyddocâd hanes, gwreiddiau, a'r cysyniad o iaith y galon. Gwych o beth yw cael cyhoeddi'r astudiaeth ddiddorol hon. Yr un awdur sy'n adolygu cyfrol fer Cynog Dafis, *Pantycelyn a'n Picil Ni Heddiw.* Er yn werthfawrogol o ymgais Cynog i gymhwyso gweledigaeth y Pêr Ganiedydd at y Gymru gyfoes, nid yw'n argyhoeddedig fod y syniadaeth ddiwinyddol sy'n sail i'r gwaith yn gwneud cyfiawnder â sylwedd y ffydd.

Bu gwladgarwch yn un o themâu cyson tystiolaeth y Cylch Catholig, sef y gymdeithas o Gymry a fynnai gymeradwyo'r Eglwys Gatholig Rufeinig i'w cyd-Gymry a'r un pryd yn gwarchod hawliau'r Gymraeg ymhlith eu cyd-grefyddwyr. Wrth adolygu cyfrol y diweddar Ioan Roberts, *Gwinllan a Roddwyd*: *Hanes y Cylch Catholig*, mae'r Golygydd yn sôn am arwyddocâd y gwaith ac am bwysigrwydd y Cylch ei hun.




Yn ogystal â'r uchod, ceir stori fer gan awdur newydd, John Harding. Braint bob amser yw cyhoeddi rhyddiaith greadigol a phleser arbennig yw dod o hyd i dalent newydd. Ynghyd â hyn ceir ysgrif gan Dewi Alter, yr ysgolhaig ifanc o Brifysgol Caerdydd, ar y Ficer Prichard a Phla Llundain, 1625. Mae'n rhyfedd sut mae argyfwng y Covid wedi'n hatgoffa o argyfyngau tebyg mewn oesoedd a fu.

Dyma'ch cymell unwaith eto i ddarllen y rhifyn cyfoethog hwn o'r *Traethodydd*, ac yn well fyth, i danysgrifio i'r hynaf a'r mwyaf sylweddol o gylchgronau'r diwylliant Cymraeg. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Drydar ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams (alice@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.


**Teithiau Elfyn Thomas Tours**

**01407 731080**

**Drama'r Dioddefaint • Oberammergau 2022**

Ymunwch ag un o'n teithiau arbennig o ogledd Cymru

Cynwys: Trefniant swyddogol
2 noson yn Oberammergau
Seddi Categori 1 i weld y perfformiad
9 noson: swper, gwely a brecwast

**16–25 Awst:** 10 Diwrnod – £1749
Soll a'r Tyrol Rhaeadr Krimml
Llyn Achensee

**15–24 Medi:** 10 Diwrnod – £1749
Innsbruck Alpau Awstria
Llyn Constance a Lindau Feldkirch

Peidiwch â cholli cyfle, dyddiad nesa 2030

**Ychydig o seddi ar ôl ar y ddau ddyddiad**
**Codwch y ffôn am fwy o fanylion, neu ewch i'n gwefan:**

**www.elfynthomas.com**


## Gofalaeth Bethel, Llanddewi Efelffre, Tabernacl, Hendy-gwyn ar Daf a Triniti, Llanboidy

Mae'r eglwysi Annibynnol hyn yn awyddus i barhau gyda gweinidogaeth lawn amser. Gyda'r dyhead hwn, rydym yn gwahodd unrhyw eglwys neu grŵp o eglwysi Annibynnol, Bedyddiedig neu Bresbyteraidd sydd â diddordeb i ymuno â'r ofalaeth.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â
Meryl James
Ysgrifennydd yr Ofalaeth
Ffôn: 01994 240350
E-bost: meryljames534@btinternet.com
Erbyn diwedd mis Mehefin.

# TUDALEN Y PLANT




## Y Bedd Gwag

Yn hwyr ar y nos Sadwrn, pan oedd y Saboth drosodd, aeth Mair Magdalen, Salome a Mair mam Iago i brynu perlysiau ar gyfer eneinio corff Iesu. Yna'n gynnar iawn ar y bore Sul, pan oedd hi yn gwawrio, dyma nhw'n mynd at y bedd. Roedden nhw wedi bod yn trafod ar eu ffordd yno pwy oedd yn mynd i rolio'r garreg oddi ar geg y bedd iddyn nhw. Ond pan gyrhaeddon nhw'r bedd dyma nhw'n gweld fod y garreg, oedd yn un drom iawn, eisoes wedi'i rholio i ffwrdd.

Wrth gamu i mewn i'r bedd, dyma nhw'n dychryn, achos roedd dyn ifanc yn gwisgo mantell wen yn eistedd yno ar yr ochr dde. "Peidiwch dychryn," meddai wrthyn nhw. "Dych chi'n edrych am Iesu o Nasareth gafodd ei groeshoelio. Mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dydy e ddim yma. Edrychwch, dyma lle cafodd ei gorff ei roi i orwedd. Ewch, a dweud wrth ei ddisgyblion a Pedr, 'Mae Iesu'n mynd i Galilea o'ch blaen chi. Cewch ei weld yno, yn union fel roedd wedi dweud.'"
(Marc 16:1-7 beibl.net)

## Beth am orffen llun yr Wy Pasg?






Cyhoeddwyd y dudalen hon yn wreiddiol yn rhifyn Ebrill o'r *Gwyliedydd* (cylchgrawn yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru), a diolchwn yn garedig i fwrdd golygyddol y papur am ganiatâd i'w hatgynhyrchu yn *Cenn@d*.

# Barn Annibynnol

## Beth yw gwirionedd?

'Fake news!' O enau Donald Trump, Arlywydd yr Unol Daleithiau ar y pryd, y clywais i'r term hwnnw y tro cyntaf. Roedd o'n taflu'r cyhuddiad at wasanaethau newyddion oedd wedi'u hen sefydlu fel rhai dibynadwy, ond yn rhannu gwybodaeth nad oedd wrth ei fodd. Bu Trump a'i weinyddiaeth yn lledaenu celwyddau yn gyson trwy gydol ei arlywyddiaeth rhwng 2017 a 2021. Profwyd bod hyd yn oed y ffotograffau o'i seremoni urddo wedi'u haddasu ar ôl iddo gwyno nad oedd digon o bobl yno.




### Prif Weinidog

Yr un flwyddyn ag y cafodd Trump ei ethol yn Arlywydd, enillwyd refferendwm ar ddyfodol y Deyrnas Gyfunol yn yr Undeb Ewropeaidd gan ymgyrch a defnyddio slogan camarweiniol ar ochr bws coch – un a gyhuddwyd o fod yn 'gamddefnydd clir o ystadegau cyhoeddus.' A chwe blynedd yn ddiweddarach, mae gan y Deyrnas Gyfunol Brif Weinidog sy'n barod i ddweud anwireddau heb feddwl ddywaith, a heb unrhyw gywilydd pan mae'n cael ei ddal. Daeth hynny'n amlwg yn y pandemig, ac mae sgandal 'partygate' a'i ran yn honno yn parhau. Hyd yn oed pan ddaeth y rhyfel yn Wcráin i gymryd sylw oddi wrth bartïon Rhif 10, roedd Johnson yn dal i gamwarwain y cyhoedd wrth drafod nifer y ffoaduriaid gafodd loches yn y Deyrnas Gyfunol.

### Camwybodaeth

Clywais yn ddiweddar bod rhywun yng Nghymru oedd wedi codi baner Wcráin i ddangos eu cefnogaeth wedi cael eu galw'n Natsïaid gan gymdogion – adlais o honiadau'r Kremlin am y llywodraeth yno a'u cyfiawnhad dros ymosod ar y wlad. Ac mi gafodd y dystiolaeth o droseddau rhyfel erchyll yn nhref Bucha eu cyflwyno yn Rwsia fel 'newyddion ffug'. Nid yw'n syndod felly bod cynifer o bobl erbyn hyn yn ei chael yn anodd i wybod beth i'w gredu.

Eironi mawr y cyfnod hwn yw bod gennym fynediad hwylus i fwy o wybodaeth nag erioed o'r blaen, a bod celwyddau neu 'gamwybodaeth' yn llwyddo i fwrw gwreiddiau cystal ag erioed gan lurgunio 'realiti' miloedd o bobl. Canlyniad hyn oll, medd rhai, yw ein bod bellach yn byw yn 'Oes Sinigiaeth'.

### Iesu a Peilat

Felly ble mae hynny'n ein gadael ni fel eglwysi? Sut mae tystiolaethu i fyd ble mae'r syniad o wirionedd a geirwiredd yn cael ei danseilio'n barhaus, a gwybodaeth yn cael ei defnyddio fel arf? 'Myfi yw'r ffordd, y *gwirionedd* a'r bywyd,' meddai Iesu, ac fe siaradodd lawer gwaith am ei berthynas agos â'r gwirionedd. Gan ein bod yng nghyfnod y Pasg, mae'n bosib mai'r enghraifft fwyaf amserol o'r cyfan oedd y geiriau a ddywedodd wrth Pontius Pilat: 'Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn hyn y deuthum i'r byd, i dystiolaethu i'r gwirionedd. Y mae pawb sy'n perthyn i'r gwirionedd yn gwrando ar fy llais i.' Ateb sinigaidd Pilat, y gwleidydd, oedd: 'Beth yw gwirionedd?' Ein hymateb ni ddylai fod i wrando ar lais Iesu a sylweddoli o'r newydd beth mae'n ei olygu i berthyn i'r gwirionedd.



### Tystio i'r gwirionedd

Y gwirionedd trist i lawer iawn o bobl erbyn hyn yw eu bod yn gorfod dewis rhwng rhoi bwyd ar y bwrdd a chynhesu eu cartref. Dyma realiti codi'r cap ar brisiau ynni, y cynnydd sydyn mewn prisiau tanwydd a chwyddiant ym mhris bwyd. A hyn i gyd yn dilyn cyfnod anodd y pandemig, heb sicrwydd bod y cyfan drosodd o'r diwedd, a phryderon am y rhyfel ar y cyfandir. Rydyn ni wedi'n galw fel eglwysi i ymateb i'r realiti enbyd hwn. Nid i gyfyngu ein hunain i bedair wal na chenhadu trwy gyfrwng digidol yn unig, ond i ymateb gyda chariad a thosturi i'r angen sydd yn ein cymunedau, i wasanaethu yn ddidwyll a diflino, a thrwy hynny dystiolaethu i wirionedd gogoneddus ein Harglwydd Iesu Grist.

**Dafydd Tudur**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

## I Wcráin Pennod 13 gan Thom M. Shuman

Pe llefarwn â rhethreg gwleidyddion neu sylwebyddion, ond nad wyf yn llefaru heddwch, dw i'n ddim byd mwy na curiad drwm neu'n sain gitâr electronig. Ac os gwn beth a ddaw yfory, ac yn gwybod holl gyfrinachau'r greadigaeth, a fy mod yn ymddiried ym mhawb, ond nad wyf yn llefaru heddwch, rwyf yn hollol wag. Pe werthwn fy holl eiddo a rhoi'r arian oll i elusennau, a phe buaswn yn arwyddo i roi organau fy nghorff i eraill, ond heb rannu heddwch gyda'r sawl sydd o'm hamgylch, rwyf wedi gwastraffu fy nghyfle i gyfri.

Nid oes dyddiad terfyn i heddwch; mae heddwch yn addfwyn; dydy heddwch ddim yn chwennych yr hyn nad oes ganddo; nid yw heddwch yn bygwth nac yn chwarae gemau rhyfel; nid yw heddwch yn gwthio eraill o'r ffordd. Nid yw heddwch yn chwennych gwlad un arall, nac yn dal at hen genfigen; nid yw heddwch yn pwdu nac yn dal ei anadl gan gicio'i draed ar y llawr; dydi heddwch byth yn chwarae hen driciau brwnt ar eraill, ac mae'n gwrthod codi baneri ffug. Mae heddwch yn goddef ffolineb eraill, yn gweld y gorau mewn pobol eraill, yn ceisio tir cyffredin â phawb, ac yn ymdrechu hyd y diwedd.

Dydi heddwch byth yn ildio. Fe ddiflanna gwleidyddion yn angof i hanes ein ddoe ni, bydd yr areithwyr yn rhedeg allan o eiriau; bydd doethineb bob arbenigwr yn troi'n llwch. Oherwydd ni wyddom ddiwedd y stori, ac mae ein dyfalu gorau ni yn ddim byd mwy na, ie, dyfalu. Ond pan ddaw amser ein Duw, bydd pob darn o'r jig-so yn ffitio'n berffaith. Pan oeddwn yn blentyn, byddwn y chwarae cuddio, byddwn yn gwylio ffilmiau am daflegrau'n dod o'r nen, byddwn yn cael hunllefau am aeafau niwclear; ond pan dyfais i fyny, darganfyddais lwybr heddwch. Nawr, er bod y drych yn niwlog gan rethreg boeth, medraf weld wynebau fy mrodyr a'm chwiorydd yn y ddynoliaeth. Yn y cyfnod hwn, caf anhawster i ddeall, ond mi ddaw y dydd pan sylweddolwn ein bod gyda'n gilydd yn y peth yma a elwir bywyd, ac y medrwn fyw y bywyd hwnnw drwy garu a gofalu am ein gilydd.

Saif Ffydd, Gobaith, a Chariad yn seiliau i'n bywydau, ond yr hyn sydd angen i ni ei naddu yn awr yw Heddwch.

*Trosiad gan Tom Evans gyda chaniatâd gan Tom M. Shuman*

# Myfyrdod Y Pasg: y bedd gwag

*Dyma ran olaf ein myfyrdod am ddigwyddiadau rhyfeddol y Pasg. Atgyfododd.*

Y disgyblion gyda'i gilydd yn yr un lle – bu'r disgyblion ddim mor isel eu hysbryd erioed na rhwng y cymun cyntaf a'r ail. Cofient am eiriau Iesu; 'Nid yfaf o ffrwyth hwn, y winwydden hyd nes i mi ei yfed o'r newydd yn nheyrnas fy nhad.' Mor bwysig y mae i ni wybod am y Swper Olaf, ond mawr obeithiwn nad yna'r cymun olaf.

Yn y cyfnod hwn yr oedd tragwyddoldeb yn y fantol, dyfodol yr eglwys, ffydd a chredo. Tybed a fyddai'r cyfan wedi diflannu oni bai am yr ymddangosiadau. Byddai'r disgyblion wedi dychwelyd at eu rhwydau, at eu galwedigaethau ac wedi anghofio'n llwyr am fod yn bysgotwyr dynion. Roedd yna bosibilrwydd fod holl drefn y Duwdod yn mynd i fethu, holl drefn y cadw yn hongian wrth ewyllys brau dyrnaid o ddynion. Onid ydym ni 'gyda'n gilydd yn yr un lle,' i'r Eglwys, mae'n ymddangos. Credwn o'r newydd y geiriau:

Gwell i ti anghofio'r breuddwydiwr ffôl,
A throi at y rhwydau a'th gychod yn ôl,
Na! na nid marw fy Arglwydd a'm Duw
Cyfododd yr Iesu; mae eto'n fyw
'Seimon fab Jona', I. D. Hooson

### Thomas yn ei amheuaeth

Roedd Thomas yn absennol o'r oedfa yn yr oruwchystafell. Wedi derbyn tystiolaeth gweddill y disgyblion, roedd Thomas druan eisiau credo, ond nid oedd yn hollol siŵr. Faint o bobl sy'n debyg i Thomas yn ein Cymru ni heddiw ? Ai ei deimlad oedd fel y dywed Gwenallt fod:

Ein llong yn tindroi yn y niwl
A'r capten a'r criw yn feddw.

Ond mae angen dweud wrth Thomas fod yna long arall wedi ei hwylio ar gefnfor yr oesau – llong yr Efengyl, cwch yr iachawdwriaeth, llong tragwyddoldeb, llong y cyfamod newydd yn ei waed,

Ac yn llwythog dan ei byrddau
Farsiandïaeth Calfari.

Onid ydym yn cael ein temtio weithiau i gymell 'Mentrwch ffrindiau i fwrdd yr hen long unwaith eto gan adael y gweddill yn ei ddwylo Ef.'

### Mae Iesu'n fyw

Ymddangosiad i Saul o Darsus – ar un adeg yr oedd yn casáu Iesu a phob peth yr oedd yn aros amdano. Roedd yn barod i ddefnyddio unrhyw arf i'w ddinistrio.

Wedi ymddangosiad Iesu, fe ddaeth yna newid anhygoel i'w fywyd. Do! Fe ddaeth y blaidd yn oen a'r ysbeiliwr yn fugail. Fe drodd yr elyniaeth yn ddefosiwn a'r casineb yn gariad. Heriwn unrhyw un i fod yn wahanol wedi bod yn llygad-dyst i ymddangosiad Iesu.

Hanfod mwyaf ein bywyd yw credu fod Iesu'n fyw. Dyma un o nodweddion mawr ein crefydd, person byw yr Arglwydd Iesu yn ei chanol. Mae ein




crefydd yn fwy nag athrawiaeth, yn fwy nag egwyddor, yn fwy na gorchymyn, yn fwy na rheol. Fe berthyn y pethau hyn i gyd iddi, ond y mae hi yn fwy – ei ffynhonnell fawr yw person byw yr Arglwydd Iesu. Mae ein cred a'n gafael mewn person byw yn anhraethol bwysig. Cymdeithas â pherson yw ei hanfod. Mae'n rhaid i ni wrth argyhoeddiad o Grist byw. Mwy na'r gwyrthiau, mwy na'r damhegion, mwy, hyd yn oed na'r Bregeth ar y Mynydd – Ef ei hun 'Myfi fy hun ydyw.'

Nid y groes yw hanfod ein crefydd, ond y gŵr fu ar y groes. Nid yr Atgyfodiad, ond y gŵr a atgyfododd. I fynd yn ôl at y gerdd 'Seimon fab Jona':

A mwyach, yn eon, mi godaf fy llef
I dystio am Iesu, Iachawdwr y Byd
Os f'Arglwydd a'i myn, drwy'r ddaear i gyd:
Cans gwelais ogoniant y Tad yn ei wedd -
Tywysog y Bywyd, Gorchfygwr y bedd.

Boed i bob un ohonoch brofi o orfoledd y Pasg eleni.

**Morlais Dyfnallt Owen**

# Gweddi'r Pasg

### Y Groglith

Dragwyddol Dad a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, caniatâ inni gymorth dy gariad a'th ras fel y gallwn fyfyrio'n ddwys a gostyngedig ar ryfeddod y groes. Dysg ni i ganfod loes dy galon Di dy Hun yn nioddefiadau Iesu Grist; a phâr fod meddwl am ei boen a'i angau drud yn denu ein serchiadau oddi wrth drysorau'r byd. Diolch am iddo farw trosom er mwyn inni gael byw. Gwared ni rhag bod yn ddiystyr o'r cariad diollwng a'i rhoddodd ei hun trosom er cymaint ein pechod a'n bai; rho inni brofiad o rin yr aberth mawr yn glanhau ein calon ac yn cryfhau ein hewyllys.



### Bore'r Pasg

Arglwydd ein bywyd a Duw ein hiachawdwriaeth, diolchwn i Ti am fore llawenydd a gorfoledd ar ôl dydd yr ing a'r marw. Clodforwn Di am yr Atgyfodiad a'r Bywyd ac am ei fuddugoliaeth ar angau a'r bedd. Mewn syndod a braw yr edrychwn ar rymuster yr Iesu a roddodd ei gorff i'r curwyr gan ymddiried i dy ewyllys ddwyfol Di am ei achos a'i enaid. Llawenhawn am na all Ef farw mwyach a bod ganddo agoriadau uffern a marwolaeth; a gweddïwn am brofiad o'i bresenoldeb gyda ni gydol ein hoes hyd y diwedd. Yn enw Iesu. Amen.

(allan o *Wrth Orsedd Gras*, R. J. Jones)




CAPEL Y NANT CLYDACH

Oedfa neilltuo arweinydd newydd

Dr Fiona Gannon

Nos Sul, 24 Ebrill am 5.00pm

Oedfa yng ngofal Robat Powell a'r Parchg Dewi M. Hughes

CROESO CYNNES I BAWB

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* aluntudur@btinternet.com

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Sefydlu Llywydd yr Eglwysi Rhyddion

Braint arbennig oedd cael ymweld â chapel Wesley yn Llundain, yn ddiweddar ar gyfer yr achlysur uchod. Codwyd yr adeilad gan John Wesley ei hunan, canolbwynt ei blwyf byd-eang, lleoliad ei gartref a'i fan gorffwys. Mam eglwys Methodistiaid y byd a llecyn cysegredig i Gristnogion yn gyffredinol. Mae'n werth cofio'r un pryd, am fynwent Bunhill Fields sy'n sefyll yn union gyferbyn â'r capel, man gorwedd nifer o enwogion fel Bunyan, Isaac Watts, Vavassor Powell i enwi rhai yn unig.

### Undod

Mae 26 aelod yn perthyn i'r grŵp Eglwysi Rhyddion, eglwysi neu enwadau sydd â'u gwreiddiau'n ddwfn yng nghyffroadau cynnar Protestaniaeth, y Diwygiad Efengylaidd neu'r Symudiad Pentecostalaidd. Yn ystod y gwasanaeth, a thros baned profwyd egni'r ymrwymiad cyffredin i ddangos undod Cristnogol yng nghanol ein hamrywiaeth. Mor braf oedd cael cwmni Yvonne Campbell, Ysgrifennydd Cyffredinol y Gynghrair Gynulleidfaol a Gethin Rhys, Cytûn.

### Llywydd Newydd



Brodor o swydd Efrog, Wesle, yw'r llywydd newydd, Helen Cameron, yn arweinydd addoliad ers ei harddegau cynnar. Wedi gweithio ychydig ym myd iechyd bu'n gweinidogaethu yn Longbridge ( adeg y penderfyniad i gau'r ffatri geir) ac yna yn Frankley, ardal ddifreintiedig iawn o Birmingham. Wedyn, ymunodd â staff Queen's Foundation, coleg hyfforddi gweinidogion cydenwadol.

Traddodwyd neges rymus ganddi ac ysbrydoledig oedd yn fynegiant clir o argyhoeddiadau a saernïwyd yng nghwrs blynyddoedd o wasanaeth i Dduw mewn sefyllfaoedd digon anodd a heriol.

'Cawsom ein galw,' meddai, 'i fyw y cariad a roddwyd i ni gan Dduw.' Y mae Duw yn hael ei gariad, hyd at afradlonedd, ac y mae gofyn i ninnau fod yn hael ac yn fawr ein cariad. Mae'n fwy na chydfodolaeth oeraidd a diserch ac nid mater o oddef ein gilydd mohono chwaith. Geilw am ymroad ac ymrwymiad llwyr i greu a chynnal




*Dyfrig Rees ac Yvonne Campbell*

perthynas lawn, iach, fywiol â'n gilydd.

'Cawsom ein galw,' meddai, 'i fod yn gymuned sy'n datgan gwirionedd, sy'n dweud y gwir.' Mor fynych y cawn ein temtio i lochesu yn y rhithiol a chael ein hudo gan y breuddwydiol, boed wyliau, boed anrheg, boed gar. Rhaid wynebu'r ffaith ein bod yn perthyn i fyd â methiant, drygioni, twyll a chelwydd yn ei nodweddu. Dim ond pan fyddwn yn barod i wynebu'n cyflwr y down ni wyneb yn wyneb â bywyd go iawn.

'Cawsom ein galw,' meddai, 'i roi ein hunain mewn ffydd i wasanaethu'r byd.' Gelwir ni i ddilyn Iesu a 'aeth oddi amgylch gan wneuthur daioni.' Ar sail geiriau William Temple, atgoffwyd ni fod yr eglwys yn bod er mwyn y bobl hynny nad ydynt eto'n perthyn iddi.

Bu'n oedfa hynod o werthfawr a bendithiol ac wrth ddiolch i Dr Hugh Osgood am ei arweiniad dros y blynyddoedd olaf dymunwn y gorau i'w olynydd, y Parchg. Helen Cameron.






*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*